



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales



Gwerthusiað Economaidd
o Fwyd a Diod Cymru – 2025

Nid yw'r ffigurau Gwerth Ychwanegol Gros (GYC) wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn oherwydd gohirio'r data 'Gweithgaredd economaidd rhanbarthol yn ôl cynnyrch domestig gros, DU: 1998 i 2024' gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i fis Medi 2026. Byddwn yn diweddarau'r datganiad hwn gyda'r ffigurau GYG cyn gynted â phosibl.

Sector Sylfaen Bwyd

Mae Sector Sylfaen Bwyd Cymru'n cwmpasu busnesau sy'n cynhyrchu, prosesu, gweithgynhyrchu a chyfanwerthu bwyd a diod, gan gynnwys busnesau eilaidd sydd eu hangen yn y diwydiant bwyd a diod¹.

Yn 2025 gwelodd y sector gynnydd mewn trosiant o 2024, gan gynyddu £811.3m (8%) o £10.2bn i £11.1bn. Daeth y cynnydd hwn o is-sectorau dethol fel diodydd a chyfanwerthu, tra bod eraill, sef bwyd anifeiliaid wedi'i baratoi, wedi gweld gostyngiad mewn trosiant. Mae rhai o'r is-sectorau hyn yn cael eu harchwilio ymhellach, yn ddiweddarach yn yr arfarniad. Dros y tymor hwy, mae'r sector wedi gweld twf mewn trosiant, gan gynyddu £2.9bn (35%) o £8.2bn yn 2019.

Roedd 1,520 o unedau busnes lleol yn y sector yn 2025, gostyngiad o 15 uned ers 2024 ond cynnydd o 115 ers 2019. Dosbarthwyd 73% o'r unedau busnes yn y sector fel micro (cyflogi llai na 10 o bobl) yn 2025, yr un fath ag yn 2024. Mae hyn yn debyg i wledydd eraill y DU, gyda Lloegr ar 74%, Gogledd Iwerddon ar 71%, a'r Alban ar 67%.


Ar draws gweddill yr unedau busnes yng Nghymru ar gyfer y sector, roedd 17% yn fach (yn cyflogi rhwng 10 a 49 o bobl), 8% yn ganolig (yn cyflogi rhwng 50 a 249 o bobl) a 2% yn fawr (yn cyflogi o leiaf 250 o bobl). Roedd 90 (7%) o fusnesau o Gymru yn y sector a oedd â throsiant o fwy na £10m yn 2025.

Roedd y sector yn cyflogi 38,000 o bobl yn 2024, gostyngiad o 5% o 40,000 yn 2023. Roedd 89% o weithwyr yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE). Cyflog canolrifol y sector yng Nghymru oedd £30,028 yn 2025, cynnydd o £2,455 (9%) o £27,574 yn 2024. Dros yr un cyfnod, cynyddodd enillion canolrifol y DU £1,223 (4%), o £31,534 i £32,757. Roedd 77% o'r holl weithwyr yn y sector yn ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol neu gyflog uwch yn 2025, cynnydd o 74% yn 2024.



¹ Fel gweithgynhyrchwyr y cynhyrchion plastig a gwydr a ddefnyddir yn y system fwyd. Mae dadansoddiad llawn o gategorïau'r sector sylfaen ar gael yn [The Food and Drink Foundation Sector Definition](#).

Trosiant fesul sector 2019-2025, (£ biliwn)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR).


Gostyngodd nifer yr unedau busnes 15 rhwng 2024 a 2025, gyda'r rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn yn dod o weld 10 yn llai o ficrofusnesau. Yn y tymor hwy mae nifer yr unedau busnes yn y sector wedi cynyddu 115, gyda 115 o unedau microfusnes newydd, gydag ychydig iawn o newid yn nifer yr unedau busnes bach, canolig a mawr.

Yn 2025, roedd 31% o weithwyr yn y sector yn gweithio i fusnesau canolig, 50% i fusnesau mawr, gyda busnesau micro a bach yn cael cyfran gyflogaeth llawer is o'r farchnad, sef 19%.


Roedd yr is-sector a gafodd y twf mwyaf mewn unedau busnes rhwng 2019 a 2025 yn gyfanwerthol, gyda 70 o unedau newydd gyda bron pob un ohonynt yn unedau busnes micro, y twf microfusnes mwyaf allan o'r holl is-sectorau.

Yn 2025, roedd gan 875 (70%) o fusnesau Cymru yn y sector sylfaen bwyd drosiant o lai na £1m. Roedd y 70% yma o fusnesau yn cyfrif am 11% o weithwyr a 3% o'r trosiant yn y sector. Roedd gan 90 (7%) o fusnesau Cymru yn y sector werth trosiant o fwy na £10m. Roedd y busnesau hyn yn cyfrif am 70% o weithwyr ac 82% o'r trosiant. Mae dadansoddiad llawn o fusnesau, gweithwyr a throsiant yn ôl band trosiant ar gael yn Atodiad A.

Cyfrif unedau lleol y sector sylfaen bwyd yn ôl is-sector, 2025



Trosiant y sector sylfaen bwyd yn ôl is-sector (£ miliwn), 2025



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR).

Unedau busnes sector sylfaen bwyd, trosiant a chyfrif gweithwyr yn ôl nifer gweithwyr, 2025

Maint y busnes	Unedau busnes 2025	% o Gyfanswm yr Unedau	Trosiant 2025 (£m)	% o Gyfanswm yr Unedau	Gweithwyr 2025	% o Gyfanswm yr Unedau
Mawr (250+)	30	2	5,532	50	18,100	50
Canolig (50-249)	120	8	3,478	31	11,100	31
Bach (10-49)	265	17	1,355	12	4,400	12
Micro (0-9)	1,110	73	686	6	2,500	7
Cyfanswm	1,520	100	11,051	100	36,200	100

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Busnes Rhyngadrannol (IDBR). Cymerir y ffigurau gweithwyr yn y tabl hwn o'r IDBR, yn wahanol i'r ffigurau gweithwyr a drafodwyd yn ystod adrannau eraill yr adroddiad hwn, sy'n dod o'r Arolwg Cyflogaeth Cofrestr Busnes (BRES). Argymhellir defnyddio data BRES dros yr IDBR wrth drafod ffigurau cyflogaeth, fodd bynnag, at ddibenion cymharu ffigurau cyflogaeth ar draws meintiau busnes, defnyddiwyd data cyflogaeth IDBR. Mae'r categori 'Sectorau sy'n Weddill' yn cynnwys porthiant anifeiliaid wedi'i baratoi, ffrwythau a llysiau, a physgod a chramenogion.

Y Gadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod


Gwelodd cadwyn gyflenwi bwyd a diod Cymru dwf hefyd yn 2025, mae'r sector hwn yn cynnwys gweithgynhyrchu a phecynnu cysylltiedig, amaethyddiaeth a physgota, manwerthu a chyfanwerthu, ac arlwyo amhreswyl. Roedd gan fusnesau yn y sector gyfanswm gwerth trosiant o £28.7bn yn 2025, cynnydd o £1.7bn (6%) o £27.0bn yn 2024. Cynyddodd allforion yn 2025 o'i gymharu â 2024, gan godi o £838.9m i £954.5m, cynnydd o £115.5m (14%)².

Bu gostyngiad bach yn nifer yr unedau busnes yn y sector, o <1% o 28,085 yn 2024 i 28,020 yn 2025. Dosbarthwyd 85% o'r unedau busnes yn y sector fel micro yn 2025, yr un fath ag yn 2024. O'i gymharu â gwledydd eraill y DU, Cymru oedd â'r ail gyfran uchaf o ficrofusnesau yn y gadwyn gyflenwi bwyd a diod, gyda Gogledd Iwerddon yn 89%, yr Alban yn 79%, a Lloegr yn 78%.

Yn 2024 roedd y gadwyn gyflenwi yn cyflogi 222,000 o unigolion yng Nghymru – gostyngiad o 1% ers 2023 – gan gyfrif am 16% o gyfanswm gweithlu Cymru. Roedd 47% o weithwyr yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE), cynnydd o 46% yn 2023. Enillion blyneddol canolrifol yn y sector ar gyfer 2025 oedd £21,320, gan gynyddu £2,724 (15%) o £18,596 yn 2024. Cyflog canolrifol y DU ar gyfer y sector oedd £22,882 yn 2025, a gynyddodd £898 (4%) o £21,985 yn 2024. Roedd 58% o weithwyr yn y sector yn ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol neu gyflog uwch yn 2025, cynnydd o 52% yn 2024.

Parhaodd bwyd a diod o Gymru i ehangu ei gynnyrch arobryn, gan ennill 153 o Wobrau Great Taste yn 2025, gostyngiad o 10 o 163 yn 2024. Roedd gan Gymru 24 o enwau bwyd gwarchodedig ym mis Ebrill 2026. Mae hyn yr un peth ag yn 2025.

Cyflogaeth is-sector y gadwyn gyflenwi bwyd a diod, 2024



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg o'r Gofrestr Fusnesau a Chyflogaeth (BRES).

Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod

Profodd sector gweithgynhyrchu bwyd a diod Cymru yn 2025 gynydd o £502.6m (8%) mewn trosiant o 2024, gan gynyddu o £6.3bn i £6.8bn.

Roedd y sector yn cyflogi 25,000 yng Nghymru yn 2024, gostyngiad o 4% o 26,000 yn 2023. Roedd 92% o weithwyr yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE). Cyflog canolrifol y sector yn 2025 oedd £28,381, cynnydd o £1,972 (7%) o £26,409 yn 2024. Cyflog canolrifol y DU ar gyfer y sector oedd £32,269 yn 2025, a gynyddodd £1,319 (4%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd 74% o unigolion yn y sector yn ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol neu gyflog uwch yn 2025, cynnydd o 69% yn 2024.


Roedd 650 o unedau busnes gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru yn 2025, gostyngiad o 15 o 665 yn 2024.

Roedd 69% o'r 650 o unedau busnes wedi'u dosbarthu fel micro, 18% bach, 10% canolig a 4% yn fawr. O'i gymharu â gwledydd eraill y DU, Cymru oedd â'r cyfran uchaf ar y cyd o ficrofusnesau yn y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod, gyda Lloegr ar 69%, Gogledd Iwerddon ar 64% a'r Alban ar 61%. Roedd 45 (8%) o fusnesau o Gymru yn y sector gyda throsiant o fwy na £10m yn 2025.

Yn 2025 roedd y gyfradd dechrau busnes yn 10% yn y sector gyda 57 o fusnesau newydd, i lawr o 11% yn 2024. Y cyfraddau goroesi 5 mlynedd ar gyfer busnesau yn y sector rhwng 2020-2025 oedd 46%, gostyngiad o 48% rhwng 2019-2024.

Dros y tymor hwy, mae'r sector wedi gweld twf cryf; cynyddodd trosiant £1.6 biliwn (30%) o £5.2 biliwn yn 2019 i £6.8 biliwn yn 2025. Yr enillion blyneddol canolrifol yn y sector ar gyfer 2025 oedd £28,381, gan gynyddu £6,810 (32%) o £21,571 yn 2019. Cynyddodd cyflog canolrifol y DU ar gyfer y sector £8,213 (34%) o £24,056 yn 2019 i £32,269 yn 2025.

Trosiant yn ôl is-sector gweithgynhyrchu bwyd a diod, 2019-2025 (£ miliwn)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR).

Cig a Chynhyrchion Cig

Roedd gan sector cig a chynhyrchion cig Cymru drosiant o £1.1bn yn 2025, gostyngiad o £83.6m (7%) o £1.2bn yn 2024.

Roedd y sector yn cyflogi 5,000 o unigolion yn 2024, yr un fath ag yn 2023. Roedd 90% o'r gweithwyr yn y sector yn 2024 yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE), yr un fath ag yn 2023. Cyflog canolrifol y sector yn 2025 oedd £27,161, cynnydd o £4,180 (18%) o £22,981 yn 2024.

Roedd 55 o unedau busnes yn y sector yn 2025, gostyngiad o 60 yn 2024. Hyd at 31 Rhagfyr 2025 nifer y sefydliadau a gymeradwywyd ar gyfer trin, paratoi neu gynhyrchu cynhyrchion cig oedd 36 ar gyfer cig coch ac 20 ar gyfer dofednod. Mae hyn yn ostyngiad o'r flwyddyn flaenorol, a oedd â 37 ar gyfer cig coch a 21 ar gyfer dofednod.

Cyfanswm gwerth allforion cig a chynhyrchion cig yn 2025 oedd £360.3m. Mae hyn yn cynnwys £123.0m o allforion anifeiliaid byw, a £237.3m o gynhyrchion cig. Mae hyn yn gynydd o £67.6m (23%) o £292.7m yn 2024. Yn unigol, cynyddodd allforion anifeiliaid byw £34.6m a chynyddodd cynhyrchion cig £33.0m ers 2024.

Yn ôl Hybu Cig Cymru (HCC), yn 2025 roedd allforion cig defaid o darddiad Cymreig yn werth oddeutu £223.8m, ac amcangyfrifwyd eu bod yn werth cyfanswm o £230.5m. Aeth tua £215.0m (96%) o gig defaid a allforiwyd i'r UE. Amcangyfrifwyd bod allforion cig eidion Cymru yn 2025 werth £102.5m, ac ochr yn ochr ag offal amcangyfrifwyd bod hyn werth cyfanswm o £112.4m. Aeth tua £95.0m (92%) o gig eidion a allforiwyd i'r UE.

Cynyddodd gwariant manwerthu ar gig yng Nghymru £36.4m (4%) o £838.1m yn 2024 i £874.5m yn 2025. Mewn cymhariaeth, cynyddodd cyfanswm Prydain £1.2bn (7%) o £15.4bn yn 2024 i £16.6bn yn 2025.

Mewn manwerthu, cig ffres oedd y gyfran uchaf o'r categorïau cig, gyda'r gyfran yn cynyddu o 37% yn 2024 i 38% yn 2025. Dilynir y categori hwn gan gig wedi'i goginio (19%), dofednod ffres (19%). Roedd y tri chategori hyn yn cyfrif am 76% o wariant manwerthu ar gig.



Y cyflog canolrifol ar gyfer cig a chynhyrchion cig yn 2025 oedd £27,161, cynnydd o £4,180 (18%) o £22,981 yn 2024.



Diodydd

Roedd gan y sector diodydd yng Nghymru drosiant o £1.5bn yn 2025, cynnydd o £405.2m (36%) o £1.1bn yn 2024. Mae'r sector hefyd wedi gweld cynnydd tebyg dros y tymor hir, gan gynyddu £418.1m (37%) o £1.1bn yn 2019. Mae'r sector diodydd yn parhau i weld amrywiadau mawr mewn trosiant flwyddyn ar ôl blwyddyn a ddechreuodd yn 2019, y newid cymedrig ers 2019 yw £333.1m.

Roedd y sector yn cyflogi 2,000 o unigolion yn 2024, gostyngiad o 20% o 2,500 yn 2023. Roedd 88% o'r gweithwyr yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE), gostyngiad o 90% yn 2023. Cyflog canolrifol y sector oedd £25,153 yn 2023, gostyngiad o £7,920 (24%) o £33,073 yn 2020. Cyflog canolrifol y DU ar gyfer y sector yn 2023 oedd £37,359, cynnydd o £3,227 (9%) o £34,132 yn 2020. Cyflog canolrifol y DU ar gyfer y sector yn 2025 oedd £39,992, cynnydd o £3,165 (9%) o £36,827 yn 2024. Ni ellir datgelu ffigurau cyflog canolrifol Cymru ar gyfer 2025, 2024, 2022 a 2021 oherwydd maint sampl isel neu amrywiant uchel ac felly maent yn ddiffygiol neu'n cael eu hystyried yn annibynadwy i'w cyhoeddi.

Roedd 145 o unedau busnes yn y sector yn 2025, gostyngiad o 155 yn 2024. Dosbarthwyd 81% o'r unedau busnes yn y sector fel micro yn 2025, yr un fath ag yn 2024.

Cyfanswm y gwariant manwerthu ar ddiodydd yng Nghymru oedd £1.4bn yn 2025, cynnydd o £16.2m (1%) o £1.4bn yn 2024. Mewn cymhariaeth, cynyddodd cyfanswm Prydain Fawr £713.6m (3%) o £24.1bn yn 2024 i £24.8bn yn 2025.

Roedd gwerthiant cwrw, gwinoedd a gwirodydd (BWS) yn cyfrif am oddeutu tri rhan o bump (61%) o wariant manwerthu Cymru ar ddiodydd, gyda gwin â'r gyfran fwyaf ar 23%. Dŵr llonydd oedd â'r cynnydd canrannol mwyaf yn y sector o £33.0m yn 2024 i £40.7m yn 2025, cynnydd o £7.7m (23%).



Y gwariant manwerthu ar
ddiodydd yng Nghymru oedd
£1.5bn yn 2025, cynnydd o
£405.2m (36%) o £1.1bn yn 2024.



Cynhyrchion Bwyd Eraill

Mae'r sector Cynhyrchion Bwyd Eraill yn cynnwys busnesau sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu'r canlynol: siwgr, cocoa, siocled, melysion, te, coffi ac amnewidion coffi, condimentau a sesnin, pryddau a seigiau parod, a pharatoadau bwyd homogenaidd a bwyd deietegol³.

Roedd gan y sector cynhyrchion bwyd eraill yng Nghymru drosiant o £1.5bn yn 2025, cynnydd o £137.6m (10%) o £1.3bn yn 2024. O'i gymharu â 2019, mae'r sector wedi cynyddu £765.0m (110%) o £697.1m.

Roedd y sector yn cyflogi 7,000 o unigolion yn 2024, yr un fath ag yn 2023. Roedd bron pob un o'r gweithwyr yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn 2024. Cyflog canolrifol y sector yn 2025 oedd £33,916, cynnydd o £7,411 (28%) o £26,505 yn 2023. Cynyddodd cyflog canolrifol y DU ar gyfer y sector £3,115 (11%) o £27,629 yn 2023 i £30,744 yn 2025. Ni ellir datgelu ffigurau cyflog canolrifol Cymru ar gyfer 2024 oherwydd maint sampl isel neu amrywiant uchel ac felly maent yn ddiffygiol neu'n cael eu hystyried yn annibynadwy eu cyhoeddi.

Roedd 125 o unedau busnes yn y sector yn 2025, yr un fath ag yn 2024. Dosbarthwyd 69% o'r busnesau fel micro, yr un fath ag yn 2024.

Cynyddodd gwariant manwerthu Cymru ar losin siwgr a siocled £9.3m (3%) o £317.5m yn 2024 i £326.8m yn 2025. Cynyddodd y gwariant ar de a choffi £8.0m (7%) o £117.9m i £125.9m. Cynyddodd y gwariant ar sawsiau bwrdd, condiments a phicl £2.1m (3%) o £60.2m i £62.3m. Ar draws Prydain Fawr, cynyddodd gwariant manwerthu ar felysion siwgr a siocled £388.1m (7%) o £5.4bn i £5.8bn. Cynyddodd y gwariant ar de a choffi £120.7m (6%) o £2.2bn i £2.3bn a chynyddodd sawsiau bwrdd, condiments a phicl £30.6m (3%) o £1.2bn i £1.2bn.

Gostyngodd gwariant manwerthu ar bryddau parod ar dymheredd amgylchynol, wedi'u hoeri a'u rhewi yng Nghymru £4.7m (3%) o £181.9m yn 2024 i £177.3m yn 2025. Ar draws Prydain Fawr cynyddodd yr un categorïau £194.2m (6%) o £3.2bn i £3.4bn.



— “ —

Roedd gan y sector cynhyrchion bwyd eraill yng Nghymru drosiant o £1.5bn yn 2025, cynnydd o £137.6m (10%) o £1.3bn yn 2024.

— ” —

³ Mae paratoadau bwyd homogenaidd a bwyd deietegol yn cynnwys fformiwla babanod, llaeth dilynol, bwydydd heb glwten, bwydydd sodiwm isel a bwydydd diabetig.

Cynhyrchion Llaeth

Roedd gan y sector llaeth yng Nghymru drosiant o £727.8m yn 2025, cynnydd o £2.5m (<1%) o £725.4m. O'i gymharu â 2019, mae'r sector wedi cynyddu £116.6m (19%) o £611.2m.

Yn 2024 roedd y sector yn cyflogi 1,750 o unigolion, yr un fath ag yn 2023. Roedd bron pob un o'r gweithwyr yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE), cynnydd o 86% yn 2023. Cyflog canolrifol y sector yng Nghymru oedd £34,180 yn 2024, cynnydd o £8,111 (31%) o £26,068 yn 2023. Cyflog canolrifol y DU ar gyfer y sector yn 2024 oedd £35,307, cynnydd o £3,553 (11%) o £31,754 yn 2023. Cyflog canolrifol y DU ar gyfer y sector yn 2025 oedd £38,117, cynnydd o £2,809 (8%) o £35,307 yn 2024. Ni ellir datgelu ffigurau cyflog canolrifol Cymru ar gyfer 2025 oherwydd maint sampl isel neu amrywiant uchel ac felly maent yn ddiffygiol neu'n cael eu hystyried yn annibynadwy eu cyhoeddi.

Yn 2025 roedd 70 o unedau busnes yn y sector, cynnydd o 65 yn 2024. Dosbarthwyd 61% o'r 70 o unedau busnes fel micro, mae hyn 1 pwynt canran yn is nag yn 2024. Dosbarthwyd 25% o'r 70 uned fusnes fel bach, cynnydd o 1 pwynt canran ers 2024.

Hyd at y 31ain o Ragfyr 2025, roedd 107 o sefydliadau wedi'u cymeradwyo ar gyfer prosesu wyau neu gynhyrchion wyau, gostyngiad o 109 y flwyddyn flaenorol. Roedd 101 o sefydliadau hefyd wedi'u cymeradwyo ar gyfer prosesu llaeth amrwd a chynhyrchion llaeth, gan ostwng o 109 yn 2024.

Cynyddodd niferoedd gwartheg godro (benywaidd 2+ gyda lloi) 2,799 (1%) o 251,313 yn 2024 i 254,112 yn 2025. Nifer yr ieir a ddefnyddiwyd ar gyfer cynhyrchu wyau oedd 4.5m yn 2025, cynnydd o 142,075 (3%) o 4.4m yn 2024.

Gwariant manwerthu ar gynhyrchion llaeth yn 2025 oedd £808.6m, cynnydd o £38.3m (5%) o £770.3m yn 2024. Cynyddodd gwariant manwerthu Prydain Fawr ar gyfer cynhyrchion llaeth £1.1 biliwn (8%) o £14.5 biliwn yn 2024 i £15.7 biliwn yn 2025. Parhaodd llaeth â'r gyfran uchaf o wariant llaeth yn 2025, sef 29%, gostyngiad o 1 pwynt canran ers 2024 tra bod llaeth babanod â'r twf cryfaf o 47% o £6.8m yn 2024 i £10.0m yn 2025.



Roedd gan y sector llaeth yng Nghymru 70 o unedau business yn y sector yn 2025, cynnydd o 65 yn 2024.



Pobi

Roedd gan y sector pobi yng Nghymru drosiant o £586.5m yn 2025, cynnydd o £90.4m (18%) o £496.1m yn 2024. Dros y tymor hwy, mae trosiant y sector wedi cynyddu £26.4m (5%) o £560.1m yn 2019.

Roedd y sector yn cyflogi 6,000 o unigolion yn 2024, yr un fath ag yn 2023. Roedd 83% o'r rhai a gyflogwyd yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE), yr un fath ag yn 2023.

Yn 2025 roedd 180 o unedau busnes yn y sector, cynnydd o 175 yn 2024. Dosbarthwyd 68% o'r unedau busnes fel micro, gostyngiad o 70% yn 2024.

Yn 2025 cyflog canolrifol y sector yng Nghymru oedd £23,585, gostyngiad o £1,263 (5%) o £24,848 yn 2024. Cynyddodd cyflog canolrifol y DU, £226 (1%) o £29,076 yn 2024 i £29,302 yn 2025.

Roedd gwariant manwerthu yn y sector pobi yng Nghymru yn £689.1m yn 2025, gostyngiad o £3.7m (1%) o £692.7m yn 2024. Cynyddodd y gwariant manwerthu ar draws Prydain Fawr £522.7m (4%) o £13.1bn yn 2024 i £13.6bn yn 2025. Cacennau ar dymheredd amgylchynol sy'n parhau â'r gyfran uchaf o'r gwariant manwerthu pobi yng Nghymru, sef 14% yn 2025, yr un fath ag yn 2024. Pwdinau ffres oedd â'r twf canrannol mwyaf yn y sector gyda gwariant manwerthu yn cynyddu £0.2m (21%) o £1.1m yn 2024 i £1.4m yn 2025.



Yn 2025 y trosiant ar gyfer y sector pobi oedd £586.5m, cynnydd o £90.4m (18%) o £496.1m yn 2024.



Manwerthu a Chyfanwerthu

Roedd gan y diwydiant manwerthu drosiant o £10.6 biliwn yn 2025, cynnydd o £496.5 miliwn (5%) o £10.1 biliwn yn 2024.

Roedd y sector manwerthu yn cyflogi 62,000 o unigolion yn 2024, cynnydd o 7% o 58,000 yn 2023. Roedd 25% o'r rhai a gyflogir yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE), mae hyn yn ostyngiad o 2% ers 2023. Ym Mhrydain Fawr, roedd canran y gweithwyr FTE yn y sector yn 33% yn 2024, cynnydd o 32% yn 2023. Cyflog canolrifol y sector yng Nghymru yn 2025 oedd £17,460, cynnydd o £943 (6%) o £16,517 yn 2024. Cynyddodd cyflog canolrifol y sector ledled y DU £1,454 (8%) o £17,320 yn 2024 i £18,774 yn 2025.

Yn 2025 roedd 4,070 o unedau busnes yn y sector, gostyngiad o 20 o 4,090 yn 2024. Dosbarthwyd 69% o'r unedau yn y sector fel micro yn 2025, gostyngiad o 70% yn 2024.

Cyfanswm y gwariant manwerthu ar fwydydd oedd £7.6bn yn 2025, gan gynyddu £103.8m (1%), o £7.5bn yn 2024. Cynyddodd cyfanswm y gwariant manwerthu ar draws Prydain Fawr £6.3bn (4%), o £141.6bn yn 2024 i £147.9bn yn 2025.

Tesco oedd yn cyfrif am 28% o gyfanswm y gyfran o wariant yng Nghymru yn ystod 2025, y mwyaf o unrhyw archfarchnad, gan gynyddu ei chyfran o <1 pwynt canran ers 2024. Dilynir Tesco gan Asda (11%), Aldi (10%), Lidl (8%) ac yna Morrisons (7%). Trefn gyfran gwariant yn ôl archfarchnadoedd yn 2024 oedd Tesco (28%), Asda (11%), Aldi (10%), Morrisons (7%), Sainsburys (7%).

Roedd gan y sector cyfanwerthu drosiant o £3.2bn yn 2025, cynnydd o £327.8m (12%) £2.8bn yn 2024.

Roedd y sector cyfanwerthu yn cyflogi 8,000 o unigolion yn 2024, cynnydd o 33% o 6,000 yn 2023. Roedd 75% o'r gweithwyr yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE), yr un fath ag yn 2023. Y cyflog canolrifol yng Nghymru yn 2025 oedd £30,797, gostyngiad o £1,789 (5%) o £32,586 yn 2024. Ar draws y DU, cynyddodd cyflogau canolrifol y sector £1,058 (3%) o £31,693 yn 2024 i £32,751 yn 2025.



Roedd y sector cyfanwerthu yn cyflogi 8,000 o unigolion yn 2024, cynnydd o 33% o 6,000 yn 2023.



Arlwyo

Mae'r sector arlwyo yn cynnwys pob arlwyo dibreswyl gan gynnwys bwytai a chaffis, gweini bwyd, arlwywyr symudol, bwyd têt-awê ac arlwyo ar gyfer digwyddiadau.

Roedd gan y sector drosiant o £3.6bn yn 2025, cynnydd o £332.9m (10%) o £3.3bn yn 2024.

Roedd y sector yn cyflogi 83,000 o unigolion yn 2024, gostyngiad o 8% o 90,000 yn 2023. Roedd 35% o'r gweithwyr yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE), cynnydd o 34% yn 2023. Cyflog canolrifol y sector yng Nghymru oedd £14,540 yn 2025, cynnydd o £3,036 (26%) o £11,504 yn 2024. Cynyddodd cyflogau canolrifol ledled y DU £573 (4%), o £15,160 yn 2024 i £15,733 yn 2025.

Yn 2025 roedd 8,970 o unedau busnes yn y sector, cynnydd o 25 (<1%) o 8,945 yn 2024. Dosbarthwyd 74% o'r unedau busnes yn y sector fel micro yn 2025, yr un fath ag yn 2024.

Yn ôl yr Arolwg Costau Byw a Bwyd, gwariodd pobl yng Nghymru £27.00 yr wythnos ar gyfartaledd ar wasanaethau arlwyo (bwytai, prydau caffi, diodydd alcoholig oddi cartref a tecawê) rhwng y flwyddyn a ddaeth i ben 2022 a'r flwyddyn a ddaeth i ben 2024. Dyma'r ail swm isaf o bedair gwlad y DU, gwariant cyfartalog ar gyfer pob cenedl oedd, yr Alban £22.90, Lloegr £28.60 a Gogledd Iwerddon £34.00 dros yr un cyfnod.



Cyflog canolrifol y sector arlwyo yng Nghymru oedd £14,540 yn 2025, cynnydd o £3,036 (26%) o £11,504 yn 2024.



Atodiad A: Diwydiannau Bwyd a Diod Cymru – Ystadegau Ychwanegol

Trosiant bwyd a diod Cymru ac unedau busnes o'i gymharu â'r DU

Metrig	Cymru	Y DU	Cymru fel % o'r DU
--------	-------	------	--------------------

Sector Sylfaen Bwyd

Trosiant 2025	£11.1bn	£308.5bn	4%
Unedau Busnes 2025	1,520	38,235	4%


Y Gadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod

Trosiant 2025	£28.7bn	£709.4bn	4%
Unedau Busnes 2025	28,020	468,155	6%

Sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod

Trosiant 2025	£6.8bn	£143.3bn	5%
Unedau Busnes 2025	650	13,980	5%

Cyflogaeth yn ôl is-sector gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru, 2024



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg o'r Gofrestr Fusnesau a Chyflogaeth (BRES). Mae'r categori 'Sectorau sy'n weddill' yn cynnwys Bwyd Parod i Anifeiliaid, Ffrwythau a Llysiau a P.

Y Sector Sylfaen Bwyd: Twf Trosiant 2019-2025

Blwyddyn	Cymru			Y DU		
	Trosiant	Twf yn y Trosiant	Twf yn y Trosiant %	Trosiant	Twf yn y Trosiant	Twf yn y Trosiant %
2019	£8.2bn	£0.6bn	9%	£228.6bn	£4.9bn	2%
2020	£7.9bn	£-0.3bn	-3%	£232.7bn	£4.1bn	2%
2021	£8.5bn	£0.6bn	7%	£233.6bn	£0.9bn	0%
2022	£8.1bn	£-0.4bn	-5%	£230.4bn	£-3.2bn	-1%
2023	£9.3bn	£1.2bn	15%	£245.0bn	£14.6bn	6%
2024	£10.2bn	£0.9bn	10%	£287.6bn	£42.6bn	17%
2025	£11.1bn	£0.8bn	8%	£308.5bn	£20.9bn	7%

Y Gadwyn Gyflenwi Bwyd a Diod: Twf Trosiant 2019-2025

Blwyddyn	Cymru			Y DU		
	Trosiant	Twf yn y Trosiant	Twf yn y Trosiant %	Trosiant	Twf yn y Trosiant	Twf yn y Trosiant %
2019	£22.1bn	£0.8bn	4%	£548.9bn	£10.6bn	2%
2020	£22.4bn	£0.3bn	1%	£562.8bn	£13.9bn	3%
2021	£23.0bn	£0.6bn	3%	£569.8bn	£7.1bn	1%
2022	£22.3bn	£-0.7bn	-3%	£553.6bn	£-16.3bn	-3%
2023	£24.6bn	£2.3bn	10%	£588.0bn	£34.4bn	6%
2024	£27.0bn	£2.4bn	10%	£667.3bn	£79.4bn	13%
2025	£28.7bn	£1.7bn	6%	£709.4bn	£42.1bn	6%

Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod: Twf Trosiant 2019-2025

Blwyddyn	Cymru			Y DU		
	Trosiant	Twf yn y Trosiant	Twf yn y Trosiant %	Trosiant	Twf yn y Trosiant	Twf yn y Trosiant %
2019	£5.2bn	£0.4bn	8%	£104.5bn	£4.7bn	5%
2020	£4.9bn	£-0.4bn	-7%	£102.7bn	£-1.7bn	-2%
2021	£5.3bn	£0.5bn	10%	£104.2bn	£1.4bn	1%
2022	£5.1bn	£-0.2bn	-4%	£107.3bn	£3.1bn	3%
2023	£6.0bn	£0.9bn	17%	£112.9bn	£5.6bn	5%
2024	£6.3bn	£0.3bn	5%	£131.3bn	£18.4bn	16%
2025	£6.8bn	£0.5bn	8%	£143.3bn	£11.9bn	9%

Dadansoddiad o ddiwydiant y Sector Sylfaen Bwyd – Busnesau sydd â'u pencadlys yng Nghymru

Blwyddyn	Band Maint Trosiant	Nifer yr Endidau	Nifer y Cyflogeion	Trosiant (£m)
2024	Cyfanswm	1,275	22,200	5,698
	a. <£1m	935	2,900	212
	b. £1m – £2m	105	700	140
	c. £2m – £3m	45	500	102
	d. £3m – £4m	30	600	97
	e. £4m – £5m	15	400	75
	f. £5m – £10m	55	1,700	367
	g. >£10m	100	15,400	4,706
2025	Cyfanswm	1,260	22,600	6,163
	a. <£1m	875	2,400	213
	b. £1m – £2m	130	900	186
	c. £2m – £3m	60	600	134
	d. £3m – £4m	20	400	68
	e. £4m – £5m	20	400	93
	f. £5m – £10m	60	2,100	430
	g. >£10m	90	15,900	5,039

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryng-adrannol o Fusnesau (IDBR).

Atodiad B: Nodiadau ar y Fethodoleg

Cafodd y data yn y gwerthusiad hwn eu crynhoi rhwng Rhagfyr 2025 a Gorffennaf 2026. Yr ystadegau a gyflwynir yn y gwerthusiad hwn oedd y rhai diweddaraf a oedd ar gael adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Ffynonellau

Data	Ffynhonnell y Data	Y flwyddyn ddiweddaraf a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad
Cyflogaeth	Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES)	2024
Ystadegau Busnes (unedau lleol, nifer yr endidau, trosiant)	Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryng-adrannol o Fusnesau (IDBR)	2025
Enwau bwyd a diod daearyddol gwarchodedig	Enwau bwyd a diod daearyddol gwarchodedig – GOV.UK (www.gov.uk)	2026
Enillion	Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)	2025
Busnesau Cymeradwy'r Asiantaeth Safonau Bwyd	Busnesau Bwyd Cymeradwy: www.data.food.gov.uk/catalog/datasets/1e61736a-2a1a-4c6a-b8b1-e45912ebc8e3	2025
Gwobrau Great Taste	www.greatasteawards.co.uk/	2025
Gwariant Manwerthu	Hawlfraint © 2026 Nielsen Consumer LLC. Cedwir pob hawl Nodyn: Cyn cyhoeddiad eleni, defnyddiwyd ffynhonnell ddata wahanol; felly, nid yw'r ffigurau yn uniongyrchol gymharol â blynyddoedd blaenorol	2025
Gwerth Allforion	Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Fasnach Ranbarthol mewn Nwyddau	2025
Gwerthoedd Allforion cig oen a chig eidion Cymru	Amcangyfrifon gan Hybu Cig Cymru (HCC)	2025
Gwariant cyfartalog ar wasanaethau arlwy	Arolwg Costau Byw a Bwyd	2022-2024

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â:
FoodDivisionalBusiness@llyw.cymru neu ystadegau.economi@llyw.cymru